6ED O CHWEFROR

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

**Eisteddfod Offerynnol**

Llongyfarchiadau i'r grŵp Cerddoriaeth Creadigol blwyddyn 4, wnaeth berfformio yn wych yn Eisteddfod Sir yr Urdd wythnos yma. Enillodd y grŵp y wobr gyntaf a bydd y criw yma nawr yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ynys Môn. Diolch yn fawr i Mrs Roberts Evans a'r staff sydd wedi bod wrthi yn eu hyfforddi. Rydym yn falch iawn ohonoch chi!

**Ymaelodi a chofrestru**

Cofiwch os ydy eich plentyn am gystadlu yn y llefaru unigol neu'r unawd yn Eisteddfod Cylch yr Urdd bydd angen i chi fel rhieni i'w cofrestru ar y Porth. Dyma'r linc i'r wefan https://www.urdd.cymru/en/
Y dyddiad cau yw dydd Llun y 9fed o Chwefror. Os chi'n cael anhawster i wneud hyn, rhowch wybod i'r ysgol ac fe wnawn eich cynorthwyo.

**Pêl-droed merched**

Llongyfarchiadau i'r ddau dîm arall merched o Flwyddyn 5 a 6 aeth i gystadlu wythnos yma yn nhwrnamaint pêl droed Caerdydd a'r Fro. Perfformiodd pawb yn arbennig a da iawn i'r tîm wnaeth ennill y gystadleuaeth! Diolch i'r holl staff sydd wedi eu hyfforddi.

## Calendr

**Dydd Miwsig Cymru**
**13.2.26**

**Gwyliau Hanner Tymor**
**16.2.26**

**Diwedd wythnos nesaf byddwn yn estyn croeso mawr nol i Mrs Marged Miles Farrier. Bydd Mrs Marged Miles Farrier yn dysgu dosbarth Arianrhod. Diolch i Mrs Afryl Davies am ei gwaith caled a'i hymroddiad yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Marged Miles Farrier.**

Y GRhA

CROESO MAWR I BAWB!



# Cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd

Dyma wybodaeth am gystadlaethau torfol yr ysgol, ac rydym wedi nodi ym mha Eisteddfod y bydd y cystadlaethau hyn. Nid ydym wedi derbyn amserlenni'r Eisteddfodau eto; byddwn yn eich hysbysu o amseroedd y cystadlaethau unwaith y byddwn wedi derbyn yr amserlenni.

Bydd y cyntaf a'r ail o bob cystadleuaeth yn yr Eisteddfod Cylch yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Bydd y cyntaf a'r ail yng nghystadleuaeth yr ymgom yn perfformio yn yr Eisteddfod Theatr. Bydd y cyntaf a'r ail yng nghystadleuaeth y Parti Unsain a'r Parti Llefaru yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir.

| Eisteddfod | Lleoliad/ Location | Dyddiad/ Date | Cystadleuaeth/ Competition |
|---|---|---|---|
| Dawns/ Dance | Ysgol Fitzalan<br>Fitzalan School | 4.3 (Ar ol ysgol/ After school) | Parti Dawnsio Gwerin Blwyddyn 5<br>Year 5 Folk Dancing group |
| Eisteddfod Cylch<br>Area Eisteddfod | Ysgol Plasmawr<br>Plasmawr school | 7.3 | Ymgom/ Dialogue<br>Parti Unsain/ Unison Party<br>Parti Llefaru/ Recitation Group |
| Eisteddfod Theatr Sir<br>County Theatre Eisteddfod | Theatr y Memo, y Barri/ Memo Theatre, Barry | 19.3 (Ar ol ysgol/ after school) | Cân Actol |
| Eisteddfod Sir/<br>Regional Eisteddfod | Theatr y Memo, y Barri/ Memo Theatre Barry | 21.3 | Parti Deulais/ Two part group<br>Parti Cerdd Dant/ Cerdd Dant party |

# Patrwm Iaith yr Wythnos

**Patrwm iaith wythnos nesaf**

Pryd mae pen-blwydd (enw)?

Mae pen-blwydd (enw) ym mis…

**Her**

Pryd gafodd ei eni? Pryd gafodd hi ei geni?

Cafodd ei eni ym (blwyddyn)/ Cafodd ei geni ym (blwyddyn)?

**Testun trafod yr wythnos**

Byddwn i'n hoffi adeiladu…

**Cân yr wythnos**

Dadleoli - Dalia Mlaen

**Idiom yr wythnos**

Arllwys y glaw